# Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru

## Adroddiad Blynyddol 2021-22



# Rhagair

Fel Cadeirydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno seithfed Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru.

Eleni, mae pandemig Covid-19 wedi parhau i effeithio ar lawer o wasanaethau a staff. Mae'r heriau i staff ar draws iechyd a gofal cymdeithasol wedi bod yn sylweddol wrth iddyn nhw barhau i reoli'r gofynion cynyddol ar wasanaethau ar adeg o ansicrwydd mawr i gymunedau lleol.

Rwy'n hynod falch o'r staff ym mhob elfen o'r maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngorllewin Cymru, sydd wedi dal ati i fynd yr ail filltir. Ar ran y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, diolch yn fawr i chi gyd.

Wrth gefnogi darparu gwasanaethau rydym wedi treulio peth amser fel partneriaeth eleni yn canolbwyntio ar ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Eleni, rydym wedi cyhoeddi ein hail Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ynghyd â'n hadroddiad cyntaf ynghylch Sefydlogrwydd y Farchnad. Bydd y dogfennau pwysig hyn yn rhoi dadansoddiad manwl i ni ynglŷn â'r gofynion yr ydym yn eu hwynebu ar draws ein grwpiau poblogaeth, gan ystyried effaith y pandemig a gallu'r gwasanaethau i'w bodloni. Yn ganolog i'n dull o ddatblygu'r asesiadau hyn fu ymgysylltu â'n dinasyddion a'n gweithwyr proffesiynol. Rwy'n falch ein bod wedi cyflawni lefel uchel o ymgysylltu yn ystod y gweithdai rhithwir a gweithgareddau eraill rydym wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn gyda'r 3 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngorllewin Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod llais y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei glywed ym mhob un o'n cynlluniau.

Eleni, daeth Rhaglenni ICF (Cronfa Gofal Integredig) a Thrawsnewid Llywodraeth Cymru i ben. Maen nhw wedi ein galluogi i arloesi cymaint yng Ngorllewin Cymru ac ni fyddem wedi gallu gwneud heb y buddsoddiad hwn. Mae llawer o'r cyflawniadau hyn yn cael eu crynhoi a'u dathlu fan hyn ac yn ein hadroddiadau blynyddol blaenorol.

Bydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) bellach yn caniatáu i ni adeiladu ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda. Mae hyn yn gyfle i ganolbwyntio'n iawn ar ganlyniadau ar draws ein poblogaeth. Mae'n siŵr y bydd newid i'r gronfa newydd hon yn her ond oherwydd ein perthnasoedd cryf, yr argyhoeddiad, a'r weledigaeth fel partneriaeth, byddwn yn llwyddo.

Gadawodd nifer o aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ystod y flwyddyn. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Mrs Joanne Silverthorne a oedd yn Gynrychiolydd Gofalwyr a hefyd i'r Cynghorydd Gareth John a oedd yn cynrychioli'r Bwrdd Iechyd. Hoffwn hefyd gydnabod colli Ros Jervis, ein Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, a fu farw ar 3 Mehefin eleni. Mae Ros wedi bod yn arweinydd gwych, yn gydweithiwr, yn aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac yn gyd-gadeirydd ein bwrdd plant a phobl ifanc. Mae Ros wedi arwain y drafodaeth i sicrhau ein bod yn datblygu golwg

DRAFT

hirdymor ar gyfer dyfodol cynaliadwy gyda'n ffocws ar atal a chydgynhyrchu. Bydd colled fawr ar ei hôl er bod ei dylanwad i'w weld yn ein gwaith o hyd.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen ein Hadroddiad Blynyddol a gallwch ddod o hyd i lawer mwy o wybodaeth am waith y Bartneriaeth ar ein gwefan trwy fynd i https://www.wwcp.org.uk/?lang=cy neu trwy gysylltu ag aelodau Tîm y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol - darperir manylion cyswllt ar eu cyfer ar ddiwedd yr adroddiad.



**Judith Hardisty**

Cadeirydd, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru

DRAFT

# Cynnwys

Foreword ........ 2
West Wales Care Partnership and the Regional Partnership Board ........ 5
Transformation Fund & Integrated Care Fund ........ 6
Making a Difference Across our Population ........ 14
Starting Well ........ 14
Living Well ........ 15
Ageing Well ........ 19
Research, Innovation and Improvement ........ 23
A high performing, sustainable workforce ........ 25
Continuous Engagement & Co-production ........ 25
References & Links ........ 28
Appendix 1 ........ 29

DRAFT

# Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn dod â phartneriaid o lywodraeth leol, y GIG, y trydydd sector a'r sector annibynnol ynghyd â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Ein nod yw trawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal yng Ngorllewin Cymru. Mae ein rhanbarth yn cwmpasu ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac yn cynnwys awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro

Mae'r grŵp unigryw hwn o bartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i lywio cydweithio ar draws Gorllewin Cymru a goruchwylio cynnydd wrth integreiddio a thrawsnewid gofal a chymorth. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cyfarwyddo gwaith y bartneriaeth ac wrth wneud hynny mae'n cyflawni dyletswyddau statudol a gyflwynwyd yn Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Hyrwyddo'r gwaith o integreiddio gwasanaethau allweddol megis y rheiny ar gyfer pobl hŷn, pobl ag anabledd dysgu, gofalwyr a phlant ag anghenion cymhleth
- Sefydlu trefniadau partneriaeth ar gyfer gwasanaethau penodol a threfniadau cronfeydd cyfun lle bo'n briodol
- Sicrhau bod trefniadau ar waith i gyflawni dyletswyddau statudol craidd megis darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a gwasanaethau eiriolaeth
- Gwella canlyniadau i bobl sydd angen gofal a chymorth a'u gofalwyr

Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cyfarfod bob deufis. Eleni, cynhaliwyd cyfarfodydd ar:

- 29 Ebrill 2021
- 29 Gorffennaf 2021
- 22 Hydref 2021
- 7 Rhagfyr 2021 (Sesiwn eithriadol)
- 20 Ionawr 2022
- 23 Mawrth 2022

Mae aelodaeth bresennol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cael ei hamlinellu yn Atodiad 1

Mae agendâu a chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gael i'r cyhoedd trwy ddilyn y ddolen ganlynol: https://www.wwcp.org.uk/agendau-a-chofnodion-bwrdd-partneriaeth-rhanbarthol-gorllewin-cymru/?lang=cy

DRAFT

# Y Gronfa Trawsnewid a'r Gronfa Gofal Integredig

## *Cronfa Gofal Integredig*

**<u>Refeniw</u>**

2021-22 oedd y flwyddyn olaf ar gyfer defnyddio'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) i ddarparu modelau gofal a chymorth integredig ar gyfer pobl hŷn, pobl ag anableddau dysgu, gofalwyr, plant sy'n wynebu risg o ddod yn rhai sy'n derbyn gofal, plant ag anghenion cymhleth a phlant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol mawr. Bydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn cymryd lle'r Gronfa Gofal Integredig o 2022-2023.

Parhaodd y dyraniad o £12,150,152 o Gronfa Gofal Integredig Gorllewin Cymru i gael ei fuddsoddi mewn amrywiaeth o raglenni a gynlluniwyd i:

- Ymgorffori dull rhanbarthol o ddarparu gwasanaethau, gan gydnabod bod trefniadau darparu ar gyfer modelau a rennir yn amrywio ar draws siroedd mewn rhai achosion
- Meithrin cydnerthedd mewn cymunedau lleol, gan atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty a galluogi'r rheiny y bu'n rhaid eu derbyn i gael eu rhyddhau'n gyflym ac yn ddiogel
- Darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth gwell sy'n sicrhau bod pobl yn cael eu cyfeirio at y math cywir o ofal a chymorth
- Osgoi derbyn pobl sy'n cyrraedd Adrannau Achosion Brys i'r ysbyty a chyflymu'r broses ryddhau lle bo modd, trwy ddarparu cymorth meddygol gartref a/neu atgyfeirio at wasanaethau therapiwtig ac adsefydlu yn y gymuned
- Codi ymwybyddiaeth o ofalwyr di-dâl a'u cefnogi i barhau yn eu rôl ofalu. Caiff astudiaethau achos eu defnyddio yn aml i godi ymwybyddiaeth, megis yr un ar wefan Gofalwyr Cymru yma
- Darparu ymyriadau ataliol yn y gymuned gan gynnwys rhaglenni osgoi codymau ac ymarfer corff gyda'r nod o wella llesiant corfforol ac emosiynol
- Gwella gofal a chymorth i bobl sy'n byw gyda Dementia a'r rhai sydd angen gofal a chymorth tymor hwy
- Gwella cyfleoedd a chymorth sydd ar gael yn eu cymunedau eu hunain i bobl ag Anableddau Dysgu
- Ymyriadau a hyfforddiant, yn seiliedig ar ymarfer sy'n ystyriol o drawma, sy'n cynorthwyo plant sydd mewn perygl o fynd i ofal i aros gyda'u teuluoedd
- Rhagori ar darged 20% Llywodraeth Cymru o fuddsoddiad gwerth cymdeithasol mewn gwasanaethau gofal a chymorth a ddarperir gan y trydydd sector.

Er teimlo effeithiau'r pandemig o hyd trwy gydol y flwyddyn, fe wnaeth cynnydd y blynyddoedd blaenorol adennill momentwm a dechreuodd canlyniadau ddychwelyd i gyfraddau cyn-bandemig ar draws y rhan fwyaf o'r mentrau.

DRAFT

Yn ystod y flwyddyn, dewisodd Old Bell 3, ymgynghorwyr a benodwyd gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad cenedlaethol o'r Gronfa Gofal Integredig, sampl o 14 o brosiectau Cronfa Gofal Integredig Gorllewin Cymru i'w gwerthuso. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y Gronfa Gofal Integredig wedi cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i drawsnewid y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, a bod rhanddeiliaid rhanbarthol yn ystyried bod nodau ac amcanion y Gronfa Gofal Integredig wedi'u cyflawni. Cafodd yr adroddiad ei gyhoeddi ar 31 Mawrth ac mae modd ei weld drwy'r dolenni isod:

English - Integrated Care Fund evaluation | GOV.WALES

Cymraeg - Gwerthusiad Cronfa Gofal Integredig | LLYW.CYMRU

**Cyfalaf**

Yn ogystal â dyraniad refeniw'r Gronfa, yn 2021-22 roedd gan Orllewin Cymru fynediad at £5,307,000 o gyllid cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig, a ddefnyddiwyd i:

- Cynyddu a gwella'r portffolio o lety byw â chymorth, gan helpu pobl ag anghenion ychwanegol, anableddau dysgu a phobl awtistig i symud o breswyl i fyw'n annibynnol
- Sefydlu canolfannau rhieni a babanod ym mhob sir gan ddarparu cymorth i deuluoedd ifanc sydd ag anghenion ychwanegol
- Datblygu cynlluniau i ddarparu cymorth aml-asiantaeth, seiliedig ar lety, ystyriol o drawma i blant a phobl ifanc ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol mawr, gan ddod â phlant a phobl ifanc sydd wedi'u lleoli ar hyn o bryd ar gyfer gofal y tu allan i'r rhanbarth yn ôl i Orllewin Cymru
- Datblygu rhagor o gyfleusterau byw â chymorth i bobl ifanc i ddarparu mynediad at addysg, cymorth ymddygiadol a chyfleoedd cyflogaeth
- Cynyddu capasiti gofal canolraddol mewn cartrefi preswyl ac ysbytai cymunedol
- Cynyddu nifer y canolfannau ailalluogi cymunedol
- Gwella darpariaeth dementia preswyl ar gyfer y rhai sydd angen gofal tymor hwy
- Cyflwyno amrywiaeth o brosiectau llai gan gynnwys offer cymunedol, podiau hyfforddi byw'n annibynnol a mân addasiadau i dai sy'n caniatáu i bobl aros yn ddiogel yn eu cartrefi a'u cymunedau.

Mae'r cynlluniau a ddatblygwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Llety â chymorth i bobl ifanc sy'n symud o wasanaethau plant yng Nglanaman a fflatiau byw â chymorth yn Llanelli, Sir Gaerfyrddin
- Fflatiau byw â chymorth yng nghanol tref Aberystwyth a'r ganolfan rhieni a babanod yng Ngheredigion
- Caffael cyfleuster llety diogel a gweithrediad llwyddiannus y cynllun cysylltiadau awyr agored a chymdeithasol yn Sir Benfro.

Mae gwybodaeth Ychwanegol o ran y Gronfa Cysylltu Pobl: Gwella Llesiant a'r Gronfa Cysylltiadau Awyr Agored (Trwy Gyfalaf ICF) i'w gweld yn nogfennau cyfeirio yr adroddiad hwn.

Mae trefniadau ar gyfer y gronfa olynol i Gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig, sef y Gronfa Tai â Gofal (HCF) yn mynd rhagddynt ers tro, ac mae cynlluniau anghyflawn o gynlluniau buddsoddi cyfalaf blaenorol y Gronfa yn cael eu cario ymlaen a'u cefnogi gan ddyraniad HCF yn y dyfodol lle bo angen.

*Y Gronfa Trawsnewid*

Mae'r gronfa hon ar gael ers 2018 a chaiff ei darparu i gynorthwyo partneriaethau i gyflawni nodau 'Cymru Iachach'. Yn 2021-22 derbyniodd Gorllewin Cymru £6m er mwyn parhad ein rhaglen 'Gorllewin Cymru Iachach'. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys tair is-raglen ryngddibynnol sydd gyda'i gilydd yn ceisio rhoi hwb i gymorth i bobl sydd mewn perygl o fod angen gofal a chymorth yn gynnar a'u hatal rhag gorfod derbyn gofal cymdeithasol a/neu feddygol parhaus.

Mae elfennau pob rhaglen o dan y rhaglen 'Gorllewin Cymru Iachach' wedi'u rhestru isod.

**Rhaglen 1: CONNECT**

- Asesiadau llesiant unigol sy'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n wirioneddol bwysig i'r unigolion. Roedd hyn wedyn yn caniatáu ar gyfer creu cynlluniau llesiant pwrpasol a oedd yn nodi canlyniadau personol a 'digwyddiadau sbarduno' megis unigrwydd, codymau a straen. Trafodwyd cynnydd yn erbyn y cynlluniau hyn ar alwadau ynglŷn â llesiant. Defnyddiodd cyfanswm o xxxxxx o bobl y gwasanaeth yn 2021-22 gydag ychydig llai na 31,000 o alwadau llesiant
- Llwybrau cymorth rhagweithiol sy'n cyfateb i anghenion unigolion, gan gynnwys: (1) darparu tabledi (89 yn 2021-22) ac Ap CONNECT 2U sy'n cysylltu pobl â chymunedau rhithwir a lleihau unigedd; (2) gwell cefnogaeth i ofalwyr; (3) rheoli codymau; (4) rhaglen addysg ar gyfer hunanreoli; a (5) cymorth cymunedol hyblyg arall

**Rhaglen 3: Integreiddio Cyflym a Chyson**

- Timau Cymunedol Mynediad Cyflym ym mhob rhan o Orllewin Cymru sy'n darparu gwasanaeth amlddisgyblaethol i bobl yn eu cartrefi, a ddarperir o fewn 2 awr a thros gyfnod o 8 diwrnod ar y mwyaf
- Darparu gwasanaeth i 10,199 o bobl drwy gydol 2021-22 gyda dros 10,325 o atgyfeiriadau i wasanaethau eraill
- Yn ategu'r gwasanaeth ymateb llesiant o fewn y rhaglen Connect
- Cefnogir gan reolwyr prosiect integredig ar draws y rhanbarth gyda chylch gwaith ehangach i gyflymu integreiddio ar draws pob rhan o'r system

**Rhaglen 7: Creu Cysylltiadau i Bawb**

- Ymgyrch Cysylltu â Charedigrwydd yn hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol a chymunedau tosturiol, gan ganolbwyntio ar grwpiau allweddol megis pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl a sbarduno newid o fewn y gweithlu
- Rhaglen sgiliau carlam i weithwyr cymunedol i'w cael i gymryd mwy o ran yn eu cymuned ac annog pobl i ymwneud â gofal a chymorth
- Cymell pobl i wirfoddoli trwy fodelau darparu hyblyg, cymorth datblygiadol i grwpiau cymunedol a threialu cynlluniau adnoddau cymunedol
- Hybiau Gweithredu Lleol yn seiliedig ar fodel 'neuadd bentref rithwir', sy'n cefnogi datblygiad cymorth cymunedol cyfunol
- Rhaglen grantiau i gefnogi prosiectau sy'n pontio'r cenedlaethau, cynyddu sgiliau a lleihau unigedd
- Swyddogion 'Cysylltydd Cymunedol a Mwy' yn hyrwyddo'r rhaglen ac yn cefnogi'r gwaith o'i gweithredu
- Ymwelodd 27,490 â'r platfform connect drwy gydol 2021-22

Comisiynodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol adroddiad yn gwerthuso Rhaglen Gorllewin Cymru Iachach o ddechrau 2021 hyd at ddiwedd ei dymor ariannu ym mis Mawrth 2022. Roedd yr adroddiad yn nodi cyfres o bethau a oedd wedi gweithio'n dda a'r gwersi a ddysgwyd. Nodwyd y canlynol:

**Beth wnaeth weithio'n dda?**

- Y cyfleoedd ar gyfer cydweithio rhanbarthol ar raddfa nas gwelwyd o’r blaen – dod â chyfuniad o sgiliau a phrofiad ynghyd i ysgogi newid
- Mwy o ymgysylltu a dysgu ar y cyd â phartneriaid Trydydd Sector

- Y gallu i gefnogi unigolion a chymunedau ar adeg anodd
- Dysgu a datblygu'r defnydd o dechnoleg a fydd yn sail ar gyfer darparu yn y dyfodol
- Dymuniad cyffredin am fwy o gydweithio a ffyrdd mwy integredig o weithio
- Cynyddu capasiti staff a'u hyfforddi i weithio mewn ffyrdd integredig o'r dechrau
- Y cyfle i 'brofi' modelau gofal / ymgysylltu cymunedol newydd a gwahanol
- Llywodraeth gref a grŵp llywio sydd wedi'i hen sefydlu ar gyfer Rhaglen 7
- Cyfleoedd i staff weithio mewn timau amlddisgyblaethol a chanlyniadau cadarnhaol i gleifion o dan fentrau Rhaglen 3

**Y gwersi a ddysgwyd?**

- I gyrraedd nodau trawsnewidiol, mae cyllid hirdymor yn allweddol
- Mae angen hyblygrwydd i sicrhau bod cyd-destun lleol, capasiti a llinellau sylfaen yn cael eu hystyried mewn lleoliad rhanbarthol
- Dylai pob rhanddeiliad, gan gynnwys dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau, gymryd rhan yn y gwaith parhaus o ddysgu a datblygu rhaglenni

Ym mis Chwefror 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol newydd yn disodli'r Gronfa Trawsnewid a'r Gronfa Gofal Integredig ym mis Mawrth 2022. Mae'r gronfa newydd hon wedi'i chynllunio i adeiladu ar y cynnydd a wnaed o dan y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid a pharhau â'r nod strategol o integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

DRAFT

*Cyllid Gaeaf*

Ym mis Tachwedd 2021, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Gaeaf Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer 2021-22 lle cadarnhawyd cyllid o £1.253 miliwn i gefnogi elfen model gofal cymdeithasol y Model Gofal Sylfaenol ar gyfer Gorllewin Cymru. Roedd y cynllun gaeaf iechyd a gofal cymdeithasol yn ceisio mynd i'r afael â'r heriau eithriadol a wynebwyd dros y gaeaf hwnnw drwy wyth maes blaenoriaeth ar gyfer gweithgareddau ataliol i wella diogelwch a llesiant cleifion a rheoli'r galw am ofal brys. Mae'r meysydd blaenoriaeth hyn ynghyd â gweithgareddau Gorllewin Cymru wedi'u crynhoi isod yng Nghyd-gynllun Gaeaf Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gorllewin Cymru 2021-22.

1. **Diogelu ni rhag COVID**

I barhau i helpu i ddiogelu Gorllewin Cymru rhag Covid-19, crëwyd cynllun cyfathrebu COVID-19 rhanbarthol gyda chyfathrebu rheolaidd ar y cyd â ffocws penodol ar Brofi, Olrhain Diogelu a chyflwyno'r rhaglen frechu. Fe wnaethom barhau i roi pwyslais ar atal a rheoli heintiau drwy PPE sy'n cwmpasu gwasanaethau byrddau iechyd, timau awdurdodau lleol a sefydliadau sector preifat/trydydd sector.

2. **Cadw pobl yn iach**

Defnyddio'r seilwaith gwasanaethau cymunedol yng Ngorllewin Cymru i roi mynediad i'n poblogaeth at wasanaethau'n 'agosach i gartref' a fyddai'n cyfrannu at osgoi derbyniadau a, lle ystyrir bod angen derbyn, prosesau rhyddhau effeithiol i leihau hyd arhosiad.

O ran cadw pobl yn iach yn feddyliol, fe wnaethom hyrwyddo gwasanaeth hunangymorth iechyd meddwl IAWN ac ymgyrchoedd Helpwch ni i'ch helpu chi Llywodraeth Cymru ar draws y tair sir. Fe wnaethom hefyd gyfuno ein hasedau llesiant

yn y rhanbarth i greu ymgyrch ymwybyddiaeth i dynnu sylw at y ffaith fod gofal sylfaenol yn agored i fusnes ac i gyfeirio ato lle bo'n briodol.

Defnyddiwyd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi amrywiaeth o elfennau sy'n rhan o'r maes blaenoriaeth hwn:

- Derbyniadau i'r Ysbyty yn seiliedig ar Alcohol
- Datblygu mynediad at ddosbarthu prydau mewn cymunedau gwledig
- Iechyd Meddwl Ymyrraeth Gynnar Mewngymorth - Ymyrraeth Gynnar / Atal
- Ar Draws Pob Oedran - Cynnal Cyswllt
- Cyfleusterau Synhwyraidd Ar Draws Pob Oedran

**3. Cynnal gwasanaethau iechyd diogel**

Drwy reoli rhyddhau acíwt o'r ysbyty, gofal brys yr un diwrnod, meithrin hyder a sicrwydd ynghylch dewisiadau amgen i adrannau achosion brys, dyma rai o'r mentrau a gymerwyd i'n galluogi i gynnal a datblygu gwasanaethau iechyd diogel dros gyfnod y gaeaf ac yn y dyfodol.

**4. Cynnal ein Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol**

Parhaodd awdurdodau lleol i gydweithio â darparwyr gofal cartref ar draws y rhanbarth i nodi cyfleoedd i gynyddu capasiti yn ogystal ag ymgyrch recriwtio i gefnogi gwasanaethau mewnol.

Fe wnaethom greu copi caled ac adnoddau ar-lein i deuluoedd i adael iddynt wybod am asesiadau gofal cymdeithasol; eu cefnogi i ystyried a gwneud penderfyniadau am ddewisiadau amgen i ofal yn y cartref megis lleoliadau preswyl dros dro; a gwybodaeth am yr hyn y gallant ei wneud i gefnogi timau gofal cymdeithasol fel mesur interim.

Defnyddiwyd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi amrywiaeth o elfennau gan gynnwys:

- Gofynion Cyllid Ychwanegol ar gyfer Offer Cymunedol Integredig (ICES)
- Cefnogaeth Ychwanegol i'r rheiny sy'n aros am becynnau cymorth
- Gwasanaeth Annibyniaeth Gymunedol a gwasanaeth Pontio
- Gwell cymorth brys o ran llesiant 24/1 i gefnogi unigolion a'u gofalwyr
- Tîm wrth gefn mewn argyfwng
- Niwed i'r Ymennydd yn Gysylltiedig ag Alcohol - cymorth cymunedol
- Rhyddhau Cleifion yn Gyflym o'r Ysbyty
- Ar Draws Pob Oedran - Gwell offer a thechnoleg ar gyfer cartrefi gofal a maethu i gefnogi cynllunio wrth gefn.

**5. Cefnogi ein gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol**

I gefnogi ein gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, fe wnaethom hyrwyddo'r defnydd o negeseuon sefydliadol mewnol a chyfeirio at wasanaethau llesiant staff i sicrhau eu bod cystal â phosibl ac yn cefnogi'r gwaith o gadw'r gweithlu.

DRAFT

Roedd mesurau eraill yn cynnwys dathlu llwyddiannau staff, cefnogi ymgyrchoedd recriwtio iechyd a gofal cymdeithasol lleol, hyrwyddo recriwtio pontio ar y cyd, cydnabyddiaeth staff yn fewnol ac yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig.

Mae cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i gefnogi amrywiaeth o elfennau sy'n rhan o'r maes blaenoriaeth hwn:

- Cyngor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, hyfforddiant a chefnogaeth i ddarparwyr mewnol ac allanol (gofal cartref ac ati)

### 6. Cefnogi gofalwyr di-dâl

Cefnogi gofalwyr di-dâl trwy ddosbarthu papurau i hyrwyddo hawliau gofalwyr, cydnabod diwrnod hawliau gofalwyr-ar-ofalwyr 2021 a rhoi cymorth ariannol i ofalwyr i gefnogi eu teuluoedd wrth iddynt aros am ofal cartref.

Cafodd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ei ddefnyddio i gefnogi amrywiaeth o elfennau o fewn y maes blaenoriaeth hwn:

- Ymestyn y Gronfa Gofalwyr
- Bocs Cysur i Ofalwyr a'u teuluoedd
- Grant Gofalwyr Anffurfiol i gefnogi pobl sydd angen gofal cartref

### 7. Sicrhau bod pawb yn cael y wybodaeth ddiweddaraf

Gan weithio ar y cyd â thimau cyfathrebu'r tair sir a'r Bwrdd Iechyd, buom yn hwyluso dull clir, integredig o gyfathrebu â'r cyhoedd dros gyfnod y gaeaf, gan gyfrannu'n uniongyrchol at "roi gwybodaeth i bawb".

Roedd y dull cydweithredol hwn yn golygu bod yr holl bartneriaid yn cyfleu diweddariadau iechyd cywir ac ymatebol ar COVID-19 gan gynnwys cyfrannau wythnosol o frechlynnau ffliw; gwybodaeth ynghylch COVID-19 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru; datganiadau wythnosol i'r wasg i atgoffa pobl o'r pethau sylfaenol sy'n ymwneud â COVID-19.

### 8. Gweithio gyda'n gilydd ar draws Cymru

Mae gan Orllewin Cymru hanes gwych o gydweithio'n agos â'i gilydd, o fewn y rhanbarth a chyda phartneriaid ledled Cymru. Gyda'r gwaith trawsnewidiol yn cael ei gynnal ledled Cymru, rydym yn gweithio'n agosach gyda'n gilydd i sicrhau ein bod yn manteisio ar well cyfathrebu ac integreiddio.

DRAFT

Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda'r darparwyr gofal annibynnol i ddarparu cyngor a chefnogaeth a bu'r holl bartneriaid yn gweithio'n agos i sicrhau bod cefnogaeth a chyfleoedd ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau ar y cyd yn y rhanbarth.

# Gwneud gwahaniaeth ar draws ein Poblogaeth

O dan Ran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mae'n ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol flaenoriaethu'r broses o integreiddio gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor (gan gynnwys dementia), pobl ag anableddau dysgu, plant ag anghenion cymhleth a gofalwyr. Wrth gynnal asesiadau poblogaeth, mae disgwyl i Fyrddau hefyd ystyried anghenion pobl â nam ar y synhwyrau, pobl â phroblemau iechyd meddwl a phobl awtistig.

Yng Ngorllewin Cymru rydym wedi cynnal ffocws cyson ar bob un o'r grwpiau hyn yn ein rhaglen ranbarthol. Ein dull o weithredu yw ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys y rheiny sy'n deillio o Covid-19, gan gyflawni yn erbyn y nodau lefel uchel yn ein Cynllun Ardal.

## Dechrau'n Dda

### *Plant a Phobl Ifanc*

Yn ystod 21-22 oed sefydlwyd bwrdd plant a phobl ifanc rhanbarthol newydd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Addysg a'r Trydydd Sector.

Mae blaenoriaethau strategol allweddol y bwrdd yn cynnwys y canlynol:

1. Iechyd emosiynol Plant a Phobl Ifanc
2. Cefnogi Plant i aros gyda'u Teuluoedd
3. Diwallu anghenion Plant ag Anghenion Cymhleth

Mae'r bwrdd plant a phobl ifanc yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o ddatblygu a monitro Prosiectau Rhanbarthol ac ymateb i gamau gweithredu y manylir arnynt yn adroddiad Comisiynydd Plant Cymru, 'Dim Drws Anghywir' sy'n herio partneriaid i gydweithio'n well i ddarparu cymorth ymatebol di-dor i blant a phobl ifanc ag anghenion emosiynol ac anghenion iechyd.

Hefyd yn 21-22, ffurfiwyd nifer o is-grwpiau i fynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol y bwrdd plant a phobl ifanc.

**Dim Drws Anghywir a Gweithgor NYTH/NEST**

- Dod â phartneriaid ynghyd i greu ymateb a chynllun gweithredu cyraeddadwy ar gyfer argymhellion adroddiad Dim Drws Anghywir
- Asesu a ydym fel rhanbarth yn cydymffurfio ag egwyddorion Fframwaith NYTH/NEST
- Edrych ar gyfleoedd i leisiau plant a phobl ifanc gael eu clywed er mwyn llywio cynllunio strategol
- Datblygu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o egwyddorion NYTH/NEST

**Llety Diogel**

Mae 'Rhaglen Lywodraethu' Llywodraeth Cymru yn ceisio cyflawni'r canlynol:

- Dileu elw preifat o ofalu am blant sy'n derbyn gofal
- Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos i'w cartrefi â phosibl ac yng Ngorllewin Cymru lle bynnag y bo'n ymarferol.

I fynd i'r afael â'r heriau hyn yng Ngorllewin Cymru sefydlodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y prosiect Llety Diogel a sicrhaodd, yn 2020, £2,225,000 o gyllid Cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig a £708,000 o gyllid Refeniw ar gyfer dull gweithredu rhanbarthol aml-asiantaeth i ddarparu llety diogel i blant â phroblemau emosiynol ac ymddygiadol cymhleth, mawr i atal rhag gwaethygu/hwyluso pobl rhag gwaethygu o ofal diamynedd. Roedd y ddarpariaeth hefyd i ddarparu seibiant byr, cyfnodau arsylwi ac asesu. Yn ystod 21-22 mae'r rhanbarth wedi llwyddo i sicrhau tri eiddo ar draws Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

Mae Gweithgor y Prosiect Llety Diogel Rhanbarthol yn diweddaru'r ddarpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol a'r model gofal a fydd yn darparu cefnogaeth therapiwtig a chymorth sy'n ystyriol o drawma i blant. Wrth adlewyrchu ar effaith y pandemig, mae gwasanaethau wedi sylwi bod plant yn ymddwyn mewn modd mwy cymhleth a bod ganddyn nhw anghenion iechyd meddwl sylweddol. Mae Iechyd, Gofal Cymdeithasol ac Addysg yn parhau i gydweithio ar draws y Rhanbarth.

## Byw'n Dda

### *Awtistiaeth*

Eleni, rydym wedi ailsefydlu Grŵp Strategol Rhanbarthol ar gyfer Awtistiaeth.

Diben cyffredinol y grŵp yw:

- Gwella canlyniadau i bobl awtistig, eu teuluoedd a'u gofalwyr
- Sicrhau bod pobl awtistig yn cymryd rhan yn y gwaith o werthuso, datblygu a darparu gwasanaethau yng Ngorllewin Cymru
- Sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni eu rhwymedigaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf GIG (Cymru) 2006 a'r Côd Ymarfer ar gyfer Darparu Gwasanaethau Awtistiaeth (2021)

Eleni, rydym wedi comisiynu Llesiant Awtistiaeth: Cartref | Llesiant Awtistiaeth i gynnal prosiect i ddechrau archwilio cydymffurfiad yn erbyn y COP. Gweler y cyfeiriadau i gael rhagor o fanylion.

Yn ogystal, bydd Llesiant Awtistiaeth yn ein cefnogi i ddatblygu cynllun yn y blynyddoedd nesaf i roi unrhyw gamau gweithredu gofynnol ar waith yn dilyn yr archwiliad a'r Asesiad Anghenion Poblogaeth.

Mae'r grŵp wedi parhau i oruchwylio'r gwaith o gyflwyno Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gorllewin Cymru (WWIAS) a sefydlwyd yn 2019. Mae hwn yn wasanaeth ar y cyd a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol Gorllewin Cymru.

Datblygwyd y gwasanaeth ledled Cymru ar ôl ymgynghori â phobl awtistig, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol a oedd wedi tynnu sylw at y diffyg cymorth sydd ar gael i bobl awtistig nad oeddent yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu.

Mae WWIAS yn cynnig asesiad diagnostig awtistiaeth i oedolion nad oes ganddynt anabledd dysgu sylweddol na phroblem iechyd meddwl. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig amrywiaeth o gymorth i bobl awtistig a'u teuluoedd, gan gynnwys gofalwyr, a chyngor i weithwyr proffesiynol.

Yn 2021-2022:

- Cafodd cyfanswm o 647 o atgyfeiriadau eu gwneud rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022. Roedd 493 (76.2%) yn gofyn am asesiad diagnostig a 154 (23.8%) am gymorth
- O'r rhain, roedd 39.7% o'r atgyfeiriadau diagnostig yn hunanatgyfeiriadau, ac roedd 59.7% gan weithwyr proffesiynol a 0.6% trwy riant/gofalwyr.
- Cafodd 9 atgyfeiriad eu gwneud i'r gwasanaeth ar gyfer Rhieni/Gofalwyr (cymorth rhiant a rhiant/gofalwr). Roedd 56% yn hunanatgyfeiriadau a 44% gan weithwyr proffesiynol
- Cafodd 126 o oedolion ddiagnosis positif yn dilyn asesiad
- Rhyngweithio gyda Rhieni/Gofalwyr: 165
- Rhyngweithio ag Oedolion Awtistig: 3,350
- Rhyngweithio â Gweithwyr Proffesiynol: 961
- Cysylltiadau newydd â gweithwyr proffesiynol: 400

### *Anableddau Dysgu*

Mae ein Partneriaeth Gwella Bywydau Ranbarthol yn parhau i oruchwylio'r gwaith o gyflawni amrywiaeth o fentrau sy'n cefnogi nodau ein Cynllun Ardal a'r rheiny a nodir yn y siarter arloesol sef Siarter Anableddau Dysgu Gorllewin Cymru. Datblygwyd y Siarter hon gan y 'Dream Team', sef grŵp o bobl ag anableddau dysgu o bob rhan o Orllewin Cymru, ac mae'n unigryw i'n rhanbarth. Ei nod yw rhoi mwy o amlygrwydd i faterion sy'n wynebu pobl ag anableddau dysgu, hyrwyddo eu hawliau, gwella eu mynediad at wasanaethau, cyfleusterau busnes a hamdden a grymuso pobl i gyd-gynhyrchu atebion yn y dyfodol. Mae ein gweithgaredd allweddol eleni wedi cael ei

grynhoi gan y Dream Team eu hunain yn y fideo YouTube: https://youtu.be/zDfJbTz5LKg

### *Iechyd Meddwl*

Bydd effeithiau pandemig COVID-19 yn cael effaith hirdymor ar iechyd meddwl a llesiant yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae'r pandemig wedi arwain at fwy o arwahanrwydd ac amharu ar fywyd arferol ac mae wedi cael effaith ddramatig ar fynediad pobl at wasanaethau. Gan fod mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol yn gyfyngedig iawn neu'n mynd yn rhithwir, mae llawer o bobl wedi methu cael mynediad at y cymorth y byddent yn ei ddisgwyl neu wedi bod yn rhy bryderus i wneud hynny. Mae pobl oedd yn gwneud yn dda cyn COVID yn aml wedi methu cael y cymorth yr oedd ei angen arnynt oherwydd hynny.

Felly, mae blaenoriaethu'r darpariaethau hyn yn bwysicach nag erioed. Bydd cydweithio ar draws y rhanbarth a'r sectorau yn sbardun allweddol i sicrhau bod gwasanaethau ar gael mewn modd amserol i'r rhai sydd eu hangen ac i atal problemau rhag gwaethygu cymaint â phosibl. Yn ystod 2021-22 cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu rhithwir gyda darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth o Weithredu Gorllewin Cymru dros Iechyd Meddwl (WWAMH) a Mind i amlygu meysydd gwella i ganolbwyntio arnynt nawr wrth inni ddod allan o'r pandemig; roedd y rhain yn cynnwys:

- Mae angen gwella gwasanaethau dilynol i addysgu a chefnogi pobl â chyflyrau gydol oes ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o wasanaeth; gallai hyn helpu pobl i hunanreoli eu cyflwr yn well a golygu bod dim angen iddynt ddychwelyd yn y dyfodol
- Mae angen mwy o gydnabyddiaeth ac ymwybyddiaeth o ddiagnosis deuol a niwroamrywiaeth, gyda nifer cynyddol o bobl yn cael diagnosis ar y sbectrwm awtistiaeth
- Er bod cynnydd wedi'i wneud ers 2017 wrth ddarparu gwasanaeth 24/7, mae dal angen gwaith pellach i gyflawni hyn. Mae noddfa min nos wedi'i sefydlu ym mhob un o'r tair sir er mwyn rhoi cymorth i bobl y tu allan i oriau, ond nid yw'r rhain yn cynnig cymorth bob awr o'r dydd ac nid ydynt bob amser yn hygyrch i bobl mewn ardaloedd gwledig
- Mae angen adolygu'r gwasanaethau hyn er mwyn sicrhau bod gwasanaeth 24 awr yn darparu cymorth mewn ymateb i'r angen, yn y ffordd fwyaf priodol, clyfar a chost-effeithiol. Er enghraifft, blaenoriaethu'r gwasanaeth fel hafan ddiogel y tu allan i oriau, gyda chymorth therapiwtig ar gael yno yn ystod y dydd
- Mae llety dros nos sy'n gysylltiedig â'r noddfeydd yn cael ei danddefnyddio ar hyn o bryd, a allai awgrymu bod y trothwy ar gyfer derbyn wedi'i osod yn rhy uchel
- Er bod rhai gwelliannau wedi'u gwneud gyda golwg ar reoli argyfwng ac ymyrraeth, mae angen rhoi ystyriaeth bellach i ddewisiadau amgen effeithiol yn hytrach na mynd i'r ysbyty mewn ymateb i argyfwng, yn lle bod yr uned damweiniau ac achosion brys yn opsiwn diofyn mewn sefyllfaoedd lle ystyrir bod pobl yn "rhy anodd i ddelio â nhw"
- Mae angen gwella mynediad ac atgyfeiriadau at Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol

DRAFT

- Mae angen gwella'r prosesau asesu i osgoi sefyllfaoedd lle caiff pobl eu rhyddhau'n rhy gynnar heb y cymorth priodol ar ôl eu rhyddhau, dim ond iddynt wedyn gael eu derbyn yn ôl

*Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)*

Yn ystod 2021-22, parhaodd Bwrdd Strategol VAWDASV i oruchwylio gwaith y strategaeth VAWDASV Bywydau Diogel, Teuluoedd Iachach a gyhoeddwyd yn 2018 fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru, o dan Ddeddf VAWDASV 2015.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gwelwyd penllanw a chwblhau nifer o brosiectau sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau rhanbarthol. Drwy gydol y strategaeth, ac yn ystod y pandemig COVID-19, mae'r rhanbarth wedi gweld cynnydd enfawr yn y galw am ddarpariaeth gwasanaethau arbenigol, ymyrraeth, a chymorth ochr yn ochr â chymhlethdod cynyddol.

Ymhlith y meysydd gweithgarwch allweddol yn 2021-22 yr oedd:

- Sicrhau cyllid a datblygu model ariannu rhanbarthol cynaliadwy hirdymor
- Creu tri safle tystiolaeth o bell newydd ar draws y rhanbarth i helpu i gynyddu'r opsiynau sydd ar gael i ddioddefwyr a thystion mewn achosion o gam-drin domestig a thrais rhywiol
- Cefnogi'r cwricwlwm Addysg Perthynas a Rhyw Newydd (RSE) trwy gyfeiriadur adnoddau VAWDASV rhanbarthol i gefnogi ysgolion cynradd/uwchradd ar draws y rhanbarth i ddatblygu adnoddau VAWDASV o ansawdd uchel sy'n briodol i oedran
- Gwelliannau i'r broses ranbarthol o nodi, ymateb ac adrodd ar gam-drin plentyn i riant trwy ddatblygu llwybr a pholisi rhanbarthol
- Datblygu strategaeth gyfathrebu VAWDASV glir wedi'i llywio gan oroeswyr a rhanddeiliaid. Mae gwaith yn parhau i sefydlu Panel Ymgynghorol Goroeswyr Rhanbarthol i oruchwylio'r holl gynllunio ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu, a fydd yn cynnwys grŵp cymorth gan gyfoedion i oroeswyr.
- Adolygiad parhaus o drefniadau comisiynu presennol i lywio'r gwaith o ddatblygu strategaeth gomisiynu "un gwasanaeth cyhoeddus" unedig ac integredig. Mae'r Ymgynghorydd Rhanbarthol a Chydlynydd Partneriaeth yn cefnogi Awdurdodau Lleol i ailgomisiynu gweithgareddau gan barhau i ystyried ymarferion comisiynu trawsffiniol posibl.

Mae'r strategaeth ranbarthol hon bellach wedi dod i ben yn naturiol, ac rydym ar hyn o bryd yn gweithio mewn partneriaeth ar draws y rhanbarth i greu strategaeth newydd gyda'r nod o'i chwblhau a'i chyhoeddi yn y 12 mis nesaf. Gweler y dogfennau cyfeirio i gael rhagor o fanylion.

# Heneiddio'n Dda

## *Dementia*

Disgwylir i nifer yr achosion o ddementia yng Nghymru godi'n ddramatig dros y degawdau nesaf. Ar draws Gorllewin Cymru, mae nifer yr achosion o ddiagnosis yn debygol o ddyblu bron yn yr ugain mlynedd nesaf, o 20,812 i 4,200. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod poblogaeth y rhanbarth yn heneiddio, wrth i ni barhau i weld cynnydd yn y boblogaeth dros 65 oed a gostyngiad yn y poblogaethau plant ac oedolion o oedran gweithio, sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau cymorth i bobl hŷn. Yn flaenorol dementia oedd prif achos marwolaeth, yn 2020 roedd dementia yn cynrychioli 11.5% o'r holl farwolaethau a COVID-19 yn unig oedd â chyfradd uwch. Mae bwlch tebygol mewn diagnosis o tua 50% yn golygu bod gwir raddfa'r bobl sy'n byw gyda dementia a nifer yr achosion yn y dyfodol yn sylweddol uwch, a gall diffyg diagnosis atal neu gyfyngu ar fynediad at wasanaethau a chymorth y mae mawr eu hangen o'r diagnosis hyd at ddiwedd oes.

Mae Grŵp Llywio Dementia'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi bod yn goruchwylio'r gwaith parhaus ar draws y rhanbarth i gyflawni uchelgeisiau Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia a Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan.

Dyrannwyd i'r rhanbarth £1.2 miliwn yn 2021-22 o gyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar Ddementia a'r safonau. Cyhoeddwyd £384,000 ychwanegol o gyllid rheolaidd ym mis Mai 2021 yn benodol i gefnogi prosiectau a fyddai'n gwella mynediad at ddiagnosis amserol ac ymgynghorwyr dementia yng ngoleuni effaith y pandemig COVID-19. Yng Ngorllewin Cymru, y Grŵp Llywio Dementia sy'n goruchwylio'r gwaith o reoli a darparu'r cyllid a'r prosiectau dementia. Mae gweithgaredd allweddol yn ystod y cyfnod 2021-22 mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu Dementia yn cynnwys:

- **Cydlynu rhaglen a strategaeth:** Datblygu strategaeth ranbarthol a llwybr gofal i ddiwallu anghenion y boblogaeth heddiw ac yn y dyfodol (trafodir hyn ymhellach isod)
- **Rhaglen hyfforddi dysgu a datblygu dementia integredig:** Datblygwyd fframwaith dysgu a datblygu dementia rhanbarthol trwy ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol a phobl sy'n byw gyda dementia ar draws y rhanbarth
- **Cynyddu cyfraddau diagnosis dementia rhanbarthol:** Rydym wedi dechrau gweld amseroedd aros ar gyfer asesiad a diagnosis yn lleihau, a nifer cynyddol o gleifion yn profi amseroedd aros o fewn targedau
- **Nyrsys Admiral:** Parhau i ddarparu'r gwasanaeth gofal dementia sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd drwy nyrsys Admiral yn cydweithio ar draws llwybrau iechyd a gofal cymdeithasol
- **Tîm Llesiant Dementia Cymunedol:** Eleni, rydym wedi gweithio gyda chartrefi gofal, iechyd meddwl, a gwasanaethau cymunedol i ddatblygu y model Gofal mewn Camau, gan dynnu ar ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ymchwil ar draws y Deyrnas Unedig.

DRAFT

Mae datblygu Strategaeth Dementia Ranbarthol yn un o'r canlyniadau mwyaf arwyddocaol yn 2021-22 sydd â'r potensial i wneud gwahaniaeth sylweddol i bobl yr effeithir arnynt gan ddementia, gan gynnwys gofalwyr, ar draws y rhanbarth. Mae'r strategaeth yn nodi gweledigaeth Gorllewin Cymru ar gyfer gwasanaethau dementia, sef '*Cynorthwyo pob person i fyw'n dda ac yn annibynnol gyda dementia cyhyd ag y bo modd*', ac mae'n amlinellu llwybr llesiant dementia sy'n canolbwyntio ar symleiddio llwybrau sy'n rhoi pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr wrth wraidd y gwasanaeth a ddarparwn. Yn ogystal â'i aliniad â'r Cynllun Gweithredu Dementia a'r Llwybr Safonau, mae'r Strategaeth Dementia Ranbarthol yn cyflawni'r canlynol:

- cefnogi amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).
- cyd-fynd â chynlluniau llesiant ac amcanion y tri chyngor sir, gyda'r ffocws ar alluogi annibyniaeth a llesiant; cydnerthedd unigolion a chymunedau; a chynyddu dewis, rheolaeth a hyblygrwydd i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth; a
- cydnabod yr angen cynyddol i sicrhau y gall pobl sy'n byw gyda dementia dderbyn cymorth gofal lliniarol a diwedd oes priodol.

Mae camau gweithredu y strategaeth yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Gweithredu arfer gorau ym maes gofal cymdeithasol, cartrefi gofal, gofal cartref a gwasanaethau arbenigol.
- Datblygu llwybr gofal a chymorth ôl-ddiagnostig, cymorth a chydlynu ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr, a chynorthwyo gofalwyr i ofalu am aelodau o'r teulu sy'n byw gyda dementia.
- Darparu cymorth, hyfforddiant a helpu i lywio/cydlynu gwasanaethau i deuluoedd, meithrin gwytnwch a chynnal cydbwysedd ar draws pob agwedd ar eu bywyd.
- Gwella gofal diwedd oes fel bod pobl sy'n byw gyda dementia yn marw mewn man o'u dewis gydag urddas a gwella'r gwaith o gydlynu ymhlith gwahanol ddarparwyr gofal er mwyn sicrhau eu bod yn deall y cynllun gofal diwedd oes

Mae clywed lleisiau pobl y mae dementia yn effeithio arnynt a sicrhau bod datblygiad gwasanaeth yn adlewyrchu anghenion a phrofiadau byw ein cymunedau yn allweddol, a bydd datblygu dull o ymgysylltu parhaus a chydgynhyrchu gwaith y strategaeth yn flaenoriaeth ar gyfer 2022-23. Gellir dod o hyd i'r Strategaeth Dementia Ranbarthol fan hyn.

### *Pobl Hŷn*

Mae'r rhaglenni trawsnewid a gefnogir trwy'r Gronfa Trawsnewid a'r Gronfa Gofal Integredig wedi bod yn bwysig iawn o ran darparu gwasanaethau gofal a chymorth integredig i bobl hŷn. Mae'r rhaglenni hyn i gyd wedi'u hategu gan Strategaeth Pobl Hŷn Cymru 2013-2023 sydd am weld y canlynol:

- Bod pob person yng Nghymru yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi beth bynnag yw eu hoed

- Bod gan holl bobl hŷn Cymru yr adnoddau cymdeithasol, amgylcheddol ac ariannol sydd eu hangen arnyn nhw i ddelio â'r cyfleoedd a'r heriau maen nhw'n eu hwynebu

Fel rhanbarth, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i amcanion y strategaeth sef 1) gwella llesiant pobl hŷn o ran ffactorau cymdeithasol, ariannol ac amgylcheddol, 2) adeiladu gwydnwch a 3) helpu pobl i gael ymdeimlad o reolaeth a phwrpas mewn bywyd, lleihau dibyniaeth a gwella iechyd cyffredinol.

Mae pob partner yn y rhanbarth wedi parhau i symud tuag at fodel gofal cyson ar gyfer pobl hŷn yn seiliedig ar yr egwyddorion llesiant ac atal sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ynghyd â chynlluniau a strategaethau eraill.

*Nam ar y synhwyrau*

Fel rhanbarth, mae gennym ymrwymiadau parhaus i sicrhau bod amrywiaeth eang o wybodaeth, cyngor a chymorth ar gael i bobl â nam ar y synhwyrau a'i fod ar gael yn y fformatau mwyaf hygyrch. Mae pobl â nam ar y synhwyrau yn fwy tebygol o deimlo'n unig ac wedi'u hynysu gan eu bod yn teimlo eu bod wedi'u hepgor o weithgareddau bob dydd. Felly, yng Ngorllewin Cymru, rydym yn parhau i flaenoriaethu cymorth cymunedol digonol i fynd i'r afael â materion unigedd ac unigrwydd.

Rydym hefyd yn parhau i weithio gyda phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol i wella'r broses o nodi a gwneud diagnosis o namau synhwyraidd fel y gellir rhoi cymorth priodol ac amserol ar waith.

Yn ystod 2021-22 fe wnaethom gynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu yn unol â datblygiad ein Hasesiadau Anghenion Poblogaeth newydd. Arweiniodd canlyniadau'r ymgysylltiadau hyn at argymhellion pwysig i wella'r gwasanaethau nam ar y synhwyrau presennol. Yn ystod y misoedd nesaf byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Mynd i'r afael â chyfyngiadau'r system o ran cofnodi namau. Ar hyn o bryd, mae System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS) ond yn caniatáu dewis un nam. Dylid diweddaru systemau i gofnodi nifer o namau
- Gwella diagnosis a chymorth cymunedol
- Codi proffil, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o nam ar y synhwyrau ar draws y system gofal a chymorth cyfan
- Gwella hygyrchedd a chyfathrebu ar gyfer pobl â nam ar y synhwyrau i gefnogi annibyniaeth a chynyddu hyder wrth ddefnyddio gwasanaethau e.e., gwell arwyddion, mwy o ddefnydd o braille ar ddrysau a lifftiau, defnydd o gynlluniau lliw priodol ac ati.
- Datblygu gwasanaethau cymorth i gleifion, megis dehongli, cyfieithu a darllen gwefusau, i sicrhau eu bod yn hygyrch, ar gael ac yn deg ar draws y rhanbarth

*Gofalwyr Di-dâl*

Yn 2021-22, parhawyd â'r gwaith o ddatblygu cymorth i ofalwyr di-dâl yn y rhanbarth. Mae Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru (WWCDG) yn is-grŵp ffurfiol o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ac maen nhw'n gyfrifol am gydlynu'r gweithgareddau sy'n cyd-fynd â'r strategaeth 5 mlynedd, 'Gwella Bywydau Gofalwyr'. Mae'r strategaeth yn nodi pedwar nod allweddol:




Er gwaethaf goblygiadau parhaus pandemig Covid-19, mae'r grŵp wedi cyflawni cynnydd cynhwysfawr mewn meysydd gwaith pwysig sy'n ymwneud â'r blaenoriaethau a grybwyllwyd eisoes. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Penodi swyddog arweiniol Buddsoddwyr mewn Gofalwyr (IiC) i oruchwylio'r gwaith parhaus o gyflwyno'r cynllun i godi ymwybyddiaeth o anghenion gofalwyr ar draws amrywiaeth o sectorau gan gynnwys gofal sylfaenol, gofal cymunedol, ysgolion, llyfrgelloedd, canolfannau gwaith, y trydydd sector, timau awdurdodau lleol a mwy. Mae'r cynllun hwn yn galluogi gofalwyr di-dâl i gofrestru fel gofalwr gyda'u Meddyg Teulu sydd wedyn yn rhoi mynediad iddynt at wasanaethau gwybodaeth i ofalwyr a all ddarparu cymorth ychwanegol.
- Cefnogaeth barhaus i gomisiynu cymorth penodol i ofalwyr di-dâl sy'n gweithio ar y cyd â'r trydydd sector. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth, allgymorth a gwasanaethau gofalwyr ifanc sydd wedi cefnogi 3332 o oedolion sy'n ofalwyr a 1198 o ofalwyr ifanc yn 2021-22.
- Parhau i aseinio Swyddogion Gofalwyr (a gyflogir gan y trydydd sector) mewn ysbytai i gynorthwyo gweithwyr iechyd proffesiynol i nodi gofalwyr di-dâl, gwella'r rhan y maent yn ei chwarae yn y broses ryddhau a darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth. Rhwng Ionawr 2020 a Mawrth 2022, cefnogodd y gwasanaeth rhyddhau gofalwyr 690 o ofalwyr di-dâl a chyflwyno 160 o sesiynau hyfforddi gwerthfawrogi gofalwyr i 806 o staff ward.
- Cwblhaodd 243 o staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau statudol ac anstatudol yn ardal Hywel Dda y Modiwl E-ddysgu Carer Aware yn 2021-22.
- Yn dilyn lansio'r fenter genedlaethol mae'r cerdyn adnabod gofalwr ifanc cenedlaethol bellach wedi'i gyflwyno ym mhob un o'r tri awdurdod lleol er

DRAFT

mwyn galluogi gofalwyr ifanc i brofi pwy yw nhw mewn meddygfeydd, ysbytai ac ysgolion.

- Dechrau datblygu gwefan newydd 'Cymorth i Ofalwyr Gorllewin Cymru' i sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael eu cynnwys yn ddigidol a bod modd eu cyfeirio'n hawdd at wybodaeth, cyngor a chymorth.
- Ar ôl cynllun peilot cychwynnol yn 202/21, parhaodd grŵp cymorth newydd ar gyfer staff bwrdd iechyd sydd â rôl ofalu yn 2021/22. Dros y flwyddyn cynhaliwyd 25 o gyfarfodydd rhithwir gyda chyfanswm o 86 o fynychwyr a oedd yn gyfle gwych i gael cefnogaeth anffurfiol gan gymheiriaid yn ogystal â gwahodd siaradwyr gwadd i drafod pynciau pwysig e.e. polisïau gofalwyr, sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar a chymorth gwasanaeth eiriolaeth
- Ariannwyd cyfanswm o 12 prosiect sirol a 6 phrosiect rhanbarthol drwy'r Gronfa Arloesi Cymorth i Ofalwyr Rhanbarthol (gan y Gronfa Gofal Integredig). Roedd y prosiectau'n cynnwys hyfforddiant llesiant ar gyfer gofalwyr di-dâl, cefnogi gofalwyr i adeiladu gwytnwch, cyrsiau ymwybyddiaeth ofalgar/llesiant a llawer mwy.

## Ymchwilio, Arloesi a Gwella

Aeth ein Hwb Cydlynu Ymchwil ac Arloesedd yn fyw ym mis Awst 2020 trwy sefydlu tîm bach, arbenigol sydd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran bwrw ymlaen â'r agenda hon ar gyfer y rhanbarth. Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i integreiddio ac alinio gwaith y Ganolfan Cydgysylltu Arloesi Ymchwil yn well â strwythurau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau bod arloesedd ar draws y rhanbarth yn wybodus ac wedi'i dargedu yn y mannau cywir.

Mae rhai o'n huchafbwyntiau yn 21-22 yn cynnwys y canlynol:

1. **<u>Datblygu 'drws ffrynt' ar gyfer Ymchwil, Arloesi a Gwella ar draws gofal cymdeithasol yng ngorllewin Cymru</u>**

Mae hwn yn ddarn hanfodol o waith parhaus i gydgysylltu Ymchwil, Arloesi a Gwella yn well ar draws y rhanbarth a darparu siop un-stop o wasanaethau ac adnoddau i'n pobl. Buom yn gweithio gyda *Practice Solutions* i gydgynhyrchu dull gweithredu ar draws y sector a bydd Rheolwr Partneriaeth yn cael ei recriwtio yn 2022-23 i helpu i symud yr agenda hon yn ei blaen.

2. **<u>Llunio dogfen i ddal y gwersi a ddysgwyd yn ystod ail don Covid-19</u>**

Lluniwyd adroddiad Discovery yn 2021 a oedd yn casglu profiadau staff y Bwrdd Iechyd o ran gweithio yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn cynnig dysgu cyfoethog i gefnogi ein datblygiad diwylliant a chymeradwywyd cynllun gweithredu gan y bwrdd iechyd i roi ei argymhellion ar waith. Bydd ail adroddiad Discovery, a fydd yn canolbwyntio ar gadw staff, yn cael ei lunio yn 2022-23.

3. **<u>Cefnogi'r bwrdd iechyd a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu dull cyffredin o fabwysiadu a lledaenu</u>**

Mae Canolfan Cydlynu Ymchwil ac Arloesedd Gorllewin Cymru wedi gwirfoddoli i arwain y darn hwn o waith ar ran hybiau eraill ledled Cymru. Mae papur yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Llywio Trawsnewid ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru. Mae fframwaith wedi'i ddatblygu a chynllun peilot wedi'i nodi.

Cefnogwyd y peilot gan y Bwrdd Iechyd ac mae bellach yn cael ei gydlynu drwy'r Bwrdd Gofal Iechyd ar sail Gwerthoedd.

O safbwynt y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, pan fydd holl brosiectau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol wedi'u gwerthuso, edrychwch i weld sut y gallwn ehangu'r dull gweithredu ar draws y rhaglen hon.

4. **Parhau i fwrw ymlaen ag argymhellion yr ymarfer mapio rhanbarthol**

Roedd hyn yn cynnwys:

- Cyflymu a hyrwyddo'r elfennau Ymchwil, Arloesia Gwella 'o safon fyd-eang' ar draws y rhanbarth
- Nodi Ymchwil, Arloesi a Gwella sy'n helpu'r rhanbarth i symud tuag at weithredu model cymdeithasol o iechyd
- Nodi Ymchwil, Arloesi a Gwella sy'n helpu i weithredu model cymdeithasol o iechyd
- Nodi Ymchwil, Arloesi a Gwella sy'n helpu i wneud cynnydd o ran model y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar sail atal; a
- Deall y gwendidau yn y system a darparu atebion i heriau ar draws y rhanbarth.

**5. Datblygu cronfa ddata arloesi a gwella integredig**

Datblygwyd y gronfa ddata hon ar y cyd â gwasanaethau arloesi a gwella ar draws y rhanbarth. Bydd hyn yn ein helpu i nodi gweithgaredd ynghyd â'n cefnogi i nodi potensial ar gyfer mabwysiadu a lledaenu.

Roedd y gwaith hwn yn fuddiol i lywio datblygiad y Ganolfan Syniadau – porth ar-lein i unrhyw un sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol gyflwyno syniadau ar gyfer arloesi sy'n sicrhau newid system.

**6. Parhau i ddatblygu partneriaethau strategol a datblygu perthnasoedd â chyrff cenedlaethol i gefnogi gweithgarwch arloesi yn y rhanbarth.**

Mae rôl berthynol yr hwb yn hanfodol i sicrhau ein bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau newydd ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ein cysylltiadau â chyrff cymorth cenedlaethol fel Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, Comisiwn Bevan, Gofal Cymdeithasol Cymru a Thechnoleg Iechyd Cymru yn ein galluogi i gefnogi ein timau i nodi arloesi ar gyfer eu meysydd gwasanaeth. Yn 2021-22,

- Cefnogwyd 10 o brosiectau enghreifftiol Bevan
- 2 x Rhaglen Arloesi Gofal wedi'i Gynllunio

- Cais i Raglenni Arloesedd Gofal wedi'i Gynllunio am fodel gofal ysbyty rhithwir ar gyfer Cymru wledig wedi'i ddatblygu - cydweithrediad rhwng canolfannau Ymchwil, Arloesi, Gwella a Chydgysylltu y gorllewin, y gogledd a Phowys.

**7. Gwerthusiadau a dysgu**

Comisiynu Adolygiad Recriwtio a Chadw o Ofal Cartref i gael adborth staff ar sut y gall y sector wella ac ysgogi recriwtio i'r sector.

Comisiynu adolygiad i Weithio Integredig ar draws y rhanbarth i ddeall beth sy'n gweithio'n dda a lle mae cyfle i wella. Mae'r gwaith hwn bellach yn cael ei fwydo i Fwrdd y Gweithlu Rhanbarthol er mwyn bwrw ymlaen â'i argymhellion.

## Gweithlu cynaliadwy sy'n perfformio'n dda

Mae'r profiad o'r pandemig Covid-19 wedi rhoi ffocws canolog i'r heriau a wynebir yn ddyddiol gan ein gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol a phwysigrwydd mawr cael staff medrus, hyblyg a chydnerth i ddarparu gofal a chymorth yn effeithiol i'n poblogaeth.

Mae ein bwrdd gweithlu rhanbarthol, dan gyd-gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Penfro a Chyfarwyddwr Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, wedi parhau i oruchwylio ein rhaglen ranbarthol uchelgeisiol. Er gwaethaf y pwysau oherwydd Covid-19 rydym wedi parhau i wneud cynnydd ym mhob un o'n pedair ffrwd waith sydd â blaenoriaeth. Caiff yr uchafbwyntiau eu nodi isod:

**Recriwtio a denu**

Cylchredeg arolwg rhanbarthol manwl ar draws ardal pob awdurdod lleol i nodi ffyrdd o ddenu mwy o bobl i'r sector gofal, gan dargedu'r rhai sy'n gweithio yn y sector, y rhai sydd wedi gadael a'r rhai nad ydynt yn gweithio yn y sector eto. Dilynwyd yr 17 argymhelliad gan ymchwil fanylach. Cafodd y gwaith hwn ei wneud mewn partneriaeth â'r Ganolfan Ymchwil, Arloesi a Gwella a'r tîm Ymchwil a Datblygu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Roedd y gwaith eilaidd hwn yn rhoi sylw pellach i adferiad y gweithlu gofal cartref yn dilyn y pandemig ac yn rhoi sylw pellach i'r prif themâu a nodwyd yng nghanlyniadau'r arolwg. Mae'r argymhellion a'r camau gweithredu o'r ddau ddarn hollbwysig hyn o ymchwil yn cael eu goruchwylio gan Fwrdd y Rhaglen Gweithlu Rhanbarthol.

Mae rhaglen o weithgareddau mewn ysgolion a cholegau hefyd wedi'i chyflwyno drwy gydol y flwyddyn, gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth, a dealltwriaeth o yrfaoedd ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, rhwng 10 a 18 oed. Mae gweithgareddau wedi cynnwys sesiynau dehonglydd dementia, sef dull arbenigol o ddehongli iaith ddi-eiriau o ran pobl sy'n byw â dementia. Mae myfyrwyr hefyd wedi dilyn "Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol", sef cwrs sylfaen i bobl sydd â diddordeb mewn gyrfa ym maes gofal cymdeithasol.

**Prentisiaethau**

DRAFT

DRAFT

Yn dilyn canlyniad argymhelliad seiliedig ar dystiolaeth yn dilyn gweithredu'r gwasanaeth pontio y llynedd, mae 9 prentis ar y cyd wedi'u recriwtio i raglen brentisiaeth beilot sy'n rhychwantu iechyd a gofal cymdeithasol. Wedi'u cyflogi am 2 flynedd ac wedi'u lleoli mewn amrywiaeth o gyfleoedd prentisiaeth iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd, dyma'r tro cyntaf i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Chyngor Sir Penfro gydweithio i greu'r cyfleoedd datblygu hyn ar draws y rhanbarth.

O fewn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant, mae awdurdodau lleol wedi cychwyn menter "Tyfu eich Gweithiwr Cymdeithasol eich Hun", sy'n rhychwantu dau awdurdod lleol yng Ngorllewin Cymru, ac mae cynllun tymor canolig i uwchraddio ar draws y rhanbarth cyfan. Nod y prosiect hwn yw datblygu'r gweithlu gweithwyr cymdeithasol yng Ngorllewin Cymru ac mae gwell cyfraddau cadw wrth wraidd hynny.

**Dysgu a Datblygu**

Mae'r Grŵp Llywio Dementia Rhanbarthol wedi arwain y gwaith o greu Fframwaith Dysgu a Datblygu Dementia ar gyfer y sector cyfan sy'n sail i'r gwaith o ddylunio a gweithredu cynlluniau dysgu ar gyfer unigolion, timau, adrannau a sefydliadau. Bydd y fframwaith hwn yn cael ei fonitro, ei werthuso a'i brofi gan grŵp llywio Dysgu a Datblygu Rhanbarthol Llywodraeth Cymru.

Cyflwynwyd rhaglen ranbarthol o gwrs Hyfforddi'r Hyfforddwr i Ddehonglydd Dementia hefyd i gynrychiolwyr o bob awdurdod lleol. Dysgodd y cyfranogwyr sut i ddehongli ciwiau di-eiriau i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia. Gellir defnyddio'r sgiliau hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd, mewn gwasanaethau gweithredol ac o fewn meysydd hybu gyrfa a thwf. Yn ogystal, mynychodd partneriaid allweddol sesiynau 'profiad dementia' sy'n ddiogel o ran Covid i bartneriaid allweddol er mwyn gwella eu gwybodaeth am ddarparu cymorth priodol a'u dealltwriaeth o sut i wneud hyn

Mynychodd Rheolwyr Cofrestredig eu fforwm rhanbarthol blynyddol lle cynhaliwyd gweminar yn seiliedig ar "Wythnos o Lesiant", ac roedd y gyfres weminar ar-lein yn cynnwys sesiynau ar Arweinyddiaeth Dosturiol, Ymwybyddiaeth Ofalgar a Hyfforddi ar gyfer Potensial Mawr.

**Cynllunio'r Gweithlu**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a thri awdurdod lleol Gorllewin Cymru wedi cydweithio i ddod o hyd i atebion i dirwedd gymhleth cynllunio gweithlu rhanbarthol ar y cyd. Rhoddwyd sylw i ystod o fentrau, gan gynnwys pecynnau meddalwedd sy'n cynnig atebion di-dor ar draws sefydliadau.

## Ymgysylltu Parhaus a Chyd-gynhyrchu

Yn ystod 21/22 comisiynodd Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru Hugh Irwin Associates i gefnogi datblygiad Fframwaith Ymgysylltu Parhaus i gefnogi gweithgaredd rhanbarthol.

Hyd a lled yr ymarfer oedd edrych ar gyfleoedd, mecanweithiau ac offer ymgysylltu rhanbarthol presennol i nodi'r canlynol:

- Asedau cyfredol sydd ar gael yn y rhanbarth ar gyfer ymgysylltu â chymunedau ac unigolion
- Cynlluniau a mecanweithiau ymgysylltu/cynnwys craidd o fewn sefydliadau partner unigol
- Sut y gellir defnyddio cyfleoedd a mecanweithiau presennol i gefnogi ymgysylltu parhaus effeithiol
- Sut y mae gwybodaeth yn cael ei rheoli, ei rhannu, ei chyrchu a'i defnyddio gan bartneriaid rhanbarthol
- Sgiliau a chyfleoedd presennol ar gyfer cynyddu sgiliau ymgysylltu parhaus ar draws y gweithlu.

Gan dynnu ar y canfyddiadau, drafftiodd Hugh Irwin fframwaith ymgysylltu parhaus a oedd yn nodi safonau craidd ar gyfer ymgysylltu ac yn darparu offeryn ar gyfer:

- Datblygu a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ymgysylltu'n barhaus â'n rhanddeiliaid/cymunedau ar draws y rhanbarth
- Defnyddio a rhannu gwybodaeth berthnasol ar draws y rhanbarth i lywio datblygiad strategaeth a gwasanaeth.

Mae grŵp llywio newydd wedi'i sefydlu a fydd yn canolbwyntio ar weithredu'r fframwaith ac mae'n cynnwys partneriaid o Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Addysg, a'r Trydydd Sector.

DRAFT

# Dogfennau Cyfeirio a Dolenni

Côd Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth:

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-07/code-of-pactice-on-the-delivery-of-autism-services .pdf

Cysylltu Pobl: Cronfa Gwella Llesiant (Trwy Gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig):

Care Homes - Grant Report Final.pdf

Cronfa Cysylltiadau Awyr Agored (Trwy Gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig):

Grant Report - Outdoor Connections

Cynllun Ardal Gorllewin Cymru 2018-2023: https://www.wwcp.org.uk/wp/wp-content/uploads/2019/01/West-Wales-Area-Plan-English-Final-Version-29-03-18.pdf

Adroddiad Blynyddol Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru (WWCDG) 2021-22:

WWCDG Annual Report 2021-2022 Fir

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru https://www.cysur.wales/vawdasv/

DRAFT

# Atodiad 1

Aelodaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Gorffennaf 2021)

| Enw | Rôl |
|---|---|
| Jonathan Griffiths | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Cyngor Sir Penfro |
| Judith Hardisty (Cadeirydd) | Is-gadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Estelle Hithchon | Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Y Cynghorydd Tessa Hodgson | Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Penfro |
| Sian Howys | Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweinyddiaeth Gorfforaethol : Porth Cynnal, Cyngor Sir Ceredigion |
| Ros Jervis | Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Trist yw nodi y bu farw ar 3 Mehefin 2021) |
| Y Cynghorydd Gareth John | Aelod Annibynnol – Llywodraeth Leol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Hilary Jones | Prif Weithredwr, Cymdeithas Tai Bro Myrddin |
| Hazel Lloyd Lubran (Is-Gadeirydd) | Prif Swyddog, Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Ceredigion |
| Jake Morgan | Cyfarwyddwr Cymunedau, Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Jonathan Morgan | Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel, Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Gareth Morgans | Cyfarwyddwr Addysg a Phlant, Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Jill Paterson | Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Gofal Cymunedol a Gofal Hirdymor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Malcolm Perret | Is-gadeirydd, Fforwm Gofal Cymru |
| Donna Pritchard | Dirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweinyddiaeth Gorfforaethol: Porth Gofal, Cyngor Sir Ceredigion |
| Joanne Silverthorne | Cynrychiolydd Gofalwyr (Ymddiswyddodd 29 Gorffennaf 2021) |
| Alan Thomas | Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth |

| | |
|---|---|
| Cathryn Thomas | Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Gofal Cymdeithasol Cymru |
| Gaynor Toft | Prif Swyddog Tai, Cyngor Sir Penfro |
| Y Cynghorydd Jane Tremlett | Aelod Cabinetb dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd, Cyngor Sir Caerfyrddin |
| James Tyler | Cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaeth |
| Y Cynghorydd Alun Williams | Aelod  Cabinet dros Wasanaethau Oedolion, Cyngor Sir Ceredigion |



**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ewch i wefan Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru yn www.wwcp.org.uk**

**E-bostiwch ni ar wwwcp@sirgar.go.uk**

**E-bostiwch ni ar wwwcp@sirgar.gov.uk**

DRAFT